# CRYNODEB CYFARFOD

## Cyngor Cymuned Llanycil

## Cyfarfod Nos Fawrth, Mehefin 9fed 2026 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol: Rhys Richards (cadeirydd), Huw Charles, Geraint Jones, Euros Puw, Arwel Davies, Huw Edwards, Rhys Jones, Gwynfryn Williams a'r clerc.

Ymddiheuriadau: Cyng.Elwyn Edwards

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mai 12fed 2026) - **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **gweler cais grant Gwynedd Ni isod.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Gwynedd Ni – Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned a Thref. **Cytunwyd I gyflwyno cais am leni llwyfan i Neuadd Parc a creu ramp a llwybr newydd ym mynwent Talybont. Dosbarthwyd y prisiau a dderbyniwyd ar gyfer y llwybr ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gynnwys pris Gwyn Charles gyda'r cais grant (Rhys Richards a Huw Charles yn gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth).**

### iv) Gohebiaeth

a) Cyngor Gwynedd.
i) Cofnodion Cyfarfod Fforwm Adfywio Y Bala a Phenllyn – Ebrill 29ain.
ii) Ymgynghoriad ar Gynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd.

### v) Ceisiadau Cynllunio.

Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau i'w trafod.

**vi) Materion Ariannol**
a) Archwiliad Mewnol a'r Ffurflen Flynyddol.
**Roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r cyngor.**
**Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y Clerc y byddai'n anfon yr holl ddogfennau roedd Swyddfa Archwilio Cymru eu hangen ar gyfer yr archwiliad llawn allannol yn ddiweddarach yn y mis. Cytunwyd i arddangos yr hysbysiad archwilio yn y mannau perthnasol.**

b) Derbyniadau.
Ad-daliad TAW

c) Ceisiadau Ariannol.
Cafwyd cais gan Kids Cancer Charity. **Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.**

**vii) Materion lleol.**
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH GORFFENNAF 14eg YN NEUADD MAESYWAEN.**